Cystadleuaeth yn y ddarpariaeth o wasanaethau teleffoni sefydlog

Dogfen ymgynghorol a gyhoeddir gan Gyfarwyddwr
Cyffredinol Telathrebu

31 Gorffennaf 2001

Office of Telecommunications
50 Ludgate Hill
London EC4M 7JJ
Ffôn: 020 7634 8700
Ffacs: 020 7634 8943
www.oftel.gov.uk
Hawlfraint y Goron 2001

Crynodeb o'r Ddogfen

C1 Nod Oftel yw sicrhau y caiff defnyddwyr y fargen orau o ran ansawdd, dewis a gwerth am arian. Marchnadoedd cystadleuol yw'r ffordd orau o gyrraedd y nod hwn. Mae rheoli prisiau yn ffordd o ddiogelu defnyddwyr mewn marchnadoedd manwerthu lle mae cystadleuaeth yn aneffeithiol ar hyn o bryd ac sy'n debygol o barhau i fod yn aneffeithiol yn y dyfodol agos. Ers 1984, bu modd rheoli prisiau drwy osod terfyn ar i ba raddau y gall BT godi prisiau ar wasanaethau dewisol.

C2 Ym mis Chwefror 2001, cyhoeddodd Oftel y Datganiad *Cynigion ar gyfer Rheoli Taliadau Rhwydwaith a Phrisiau Manwerthu o 2001.* Daeth Oftel i'r casgliad y dylid ymestyn y rheolaeth ar brisiau manwerthu gan BT ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2001 i 31 Gorffennaf 2002. Er ei fod yn cydnabod bod y gystadleuaeth yn cynyddu o ran y ddarpariaeth o wasanaethau teleffoni sylfaenol, nid oedd Oftel o'r farn y byddai cystadleuaeth yn unig yn diogelu pob grŵp cwsmeriaid. Bwriad ehangu'r rheolaeth ar brisiau oedd caniatáu amser i Oftel adolygu hyd a lled y gystadleuaeth mewn marchnadoedd teleffoni sylfaenol ymhellach, ynghyd ag asesu a fyddai angen rheolaeth neu fesurau eraill ar ôl Gorffennaf 2002.

C3 Mae'r rheolaeth bresennol ar brisiau manwerthu yn cyfyngu ar y codiadau blynyddol ym mhris grŵp neu 'fasged' o wasanaethau ar gyfartaledd yn ôl y raddfa chwyddiant (RPI) llai 4.5%. Mae'r gwasanaethau a reolir yn cynnwys cysylltiadau, rhentu llinell, galwadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a chymorth cysylltydd. Mae Oftel yn cyfrifo pwysau cymharol pob gwasanaeth o fewn y fasged drwy edrych ar batrymau gwariant yr 80% isaf o gwsmeriaid preswyl yn ôl gwariant. Mae hyn yn golygu bod y rheolaeth yn sicrhau bod newidiadau mewn prisiau yn canolbwyntio ar y gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf gan gwsmeriaid sy'n gwario llai.

C4 Mae BT yn ddarostyngedig i reolaeth ar wahân ar ei gyfradd cadw manwerthu ar alwadau i BTCellnet a Vodafone (hynny yw, mae'r rheolaeth yn berthnasol i bris net y taliad a wneir i weithredwr y ffôn symudol). Pennir y rheolaeth hon ar RPI -7% a bwriedir i hyn hefyd ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2002.

Y broses adolygu

C5 Mae'r ddogfen hon yn cychwyn yr adolygiad pellach o'r gystadleuaeth yn y ddarpariaeth o wasanaethau teleffoni. Yn gyntaf, mae angen i Oftel ddiffinio'r marchnadoedd perthnasol. Yn dilyn hynny, gall Oftel ddechrau archwilio ai cystadleuaeth yw'r prif ddylanwad ar ffordd BT o bennu prisiau. Yn y ddogfen

ymgynghorol hon mae Oftel wedi diffinio'r marchnadoedd perthnasol ac wedi rhoi ei safbwyntiau rhagarweiniol ar gystadleuaeth yn y marchnadoedd hynny. Mae Oftel yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar ddiwedd y flwyddyn gyda chynigion ar gyfer trefniadau diogelu defnyddwyr yn y dyfodol – os bydd eu hangen – a datganiad yn nodi ei ganlyniadau a'i gynigion terfynol erbyn Mehefin 2002. Bydd y datganiad hwn yn cynnwys y newidiadau i'r drwydded y bydd eu hangen er mwyn gweithredu cynigion Oftel.

C6 Os bydd yr adolygiad yn canfod mai cystadleuaeth yw'r prif reswm dros gyfyngu ar brisiau gwasanaethau BT, ni fydd angen rheoli prisiau. Fodd bynnag, os bydd Oftel yn dod i'r casgliad nad yw cystadleuaeth yn cyfyngu ar brisiau, efallai y byddai angen cael rheolaeth bellach ar brisiau neu gyflwyno mesurau eraill er mwyn ysgogi cystadleuaeth. Gallai'r mesurau gynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i BT ddarparu mynediad yn seiliedig ar gost i ddarparwyr y gwasanaeth neu adolygu'r ffordd y bydd BT yn darparu gwasanaethau cyfanwerth megis galwadau a mynediad a'r gwasanaeth rhagddewis cludwr.

C7 Mae angen mewnbwn gan fudd-ddeiliaid ar Oftel er mwyn ei helpu i asesu natur gystadleuol marchnadoedd teleffoni sylfaenol yn y DU. Caiff ymatebwyr eu hannog i ddarparu unrhyw ddata sy'n berthnasol yn eu barn hwy i'r adolygiad hwn o farchnadoedd.

Diffinio'r marchnadoedd perthnasol

C8 Er mwyn asesu a yw cystadleuaeth yn effeithiol o fewn unrhyw farchnad, ac a yw felly'n diogelu'r defnyddwyr, mae angen diffinio beth yw marchnadoedd perthnasol. Mae Oftel o'r farn fod y gwasanaethau canlynol mewn marchnadoedd ar wahân:

- Mynediad;
- Galwadau lleol;
- Galwadau cenedlaethol;
- Galwadau rhyngwladol rhwng dwy wlad;
- Galwadau o ffôn sefydlog i ffôn symudol; a
- Galwadau drwy gymorth cysylltydd.

Dangosyddion allweddol a safbwyntiau rhagarweiniol

C9 Yn nogfen Oftel *Gweithredu Strategaeth Oftel: Canllawiau Adolygu Cystadleuaeth Effeithiol,* Awst 2000, nododd Oftel ddeuddeg dangosydd a ddefnyddir ganddo wrth

asesu a yw cystadleuaeth yn effeithiol o fewn unrhyw farchnad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi safbwynt cychwynnol Oftel ar hyd a lled y gystadleuaeth yn y marchnadoedd perthnasol gan ddefnyddio'r dangosyddion hynny. Mae'r darlun cyffredinol ar hyn o bryd yn dangos bod mwy o gystadleuaeth ac amlygir hyn gan y ffaith bod prisiau'n symud yn gynyddol tuag at gostau, a safbwyntiau ac ymddygiad y defnyddwyr. Fodd bynnag, yn nhŷb Oftel, efallai nad yw cystadleuaeth yn gwbl effeithiol ar hyn o bryd.

C10 Er mwyn asesu a fydd angen gweithredu ar ôl Gorffennaf 2002, ac os felly ym mha ffordd, mae Oftel yn bwriadu archwilio'r canlynol, gan ofyn am farn a thystiolaeth arnynt. Ymhlith pethau eraill, bydd Oftel yn archwilio:

- i ba raddau y mae cwsmeriaid yn elwa ar gystadleuaeth ac i ba raddau y mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gael iddynt er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau effeithiol rhwng gweithredwyr;
- rhwystrau i fynediad;
- i ba raddau y mae'r gystadleuaeth bresennol a chystadleuaeth newydd yn debygol o gyfyngu ar brisiau BT;
- y fframwaith ar gyfer dadansoddiad o'r gystadleuaeth; a
- sut y dylid dehongli'r dangosyddion o fewn yr asesiad cyffredinol o'r farchnad.

Manylion Ymgynghori

Byddai Oftel yn croesawu safbwyntiau ar ei ddiffiniad arfaethedig o'r farchnad ac ar ei ddadansoddiad rhagarweiniol o gystadleuaeth yn erbyn ei brif ddangosyddion. Byddai Oftel hefyd yn croesawu unrhyw ddata arall a fyddai, ym marn darpar ymatebwyr, yn helpu Oftel i asesu cystadleuaeth yn y ddarpariaeth o wasanaethau teleffoni sylfaenol.

Hoffai Oftel dderbyn safbwyntiau gan ddefnyddwyr a diwydiant erbyn **2 Hydref 2001.** Wedyn bydd cyfnod o 2 wythnos hyd at **16 Hydref 2001** pryd y gwahoddir sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed yn ystod cyfnod cyntaf yr ymgynghoriad.

Dylid anfon y cynigion, yn ysgrifenedig, at:

Mike Galvin
Regulatory Policy
50 Ludgate Hill

London
EC4M 7JJ
Ffôn: 020 7634 8869
Ffacs: 020 7634 8924
E-bost: mike.galvin@oftel.gov.uk

Ni ddylid anfon ymatebion cyfrinachol dros y Rhyngrwyd. Sicrheir fod sylwadau ysgrifenedig ar gael yn gyhoeddus yn Uned Ymchwil a Deallusrwydd Oftel ac eithrio lle y bydd atebwyr yn nodi bod yr ymateb, neu rannau ohono, yn gyfrinachol. Gofynnir i atebwyr felly wahanu unrhyw ddeunydd cyfrinachol a'i roi mewn atodiad sy'n nodi'n glir ei fod yn cynnwys deunydd cyfrinachol. Er budd tryloywder, gofynnir i atebwyr osgoi nod cyfrinachedd lle bynnag y bo'n bosibl. Dylid trefnu gwneud ceisiadau i weld sylwadau ysgrifenedig yn Uned Ymchwil a Deallusrwydd Oftel ymlaen llaw (ffôn: 020 7634 8761, ffacs: 020 7634 8946).

Rhyngrwyd

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ar wefan Oftel ar www.oftel.gov.uk. Hoffai Oftel sefydlu cyswllt rhwng y ddogfen hon ac unrhyw ymatebion a osodir ar dudalennau Rhyngrwyd yr atebwyr eu hunain. Cysylltwch â Jo Hamilton yn Oftel ar 020 7634 8755 neu drwy'r e-bost at web.oftel@gtnet.gov.uk er mwyn trefnu hyn.

Mae gan Oftel restr lythyru e-bost sy'n rhad ac am ddim er mwyn helpu i hysbysu pobl ynghylch gwaith a wneir gan Oftel. Bob tro y cyhoeddir dogfen gan Oftel a'i gosod ar wefan Oftel ar www.oftel.gov.uk, bydd tanysgrifwyr i'r rhestr yn derbyn e-bost yn rhoi gwybod iddynt am y ddogfen. Er mwyn cofrestru, ewch i adran *What's New* y wefan a defnyddiwch y ffurflen electronig i ychwanegu eich enw at y rhestr.

Fformatiau eraill

Mae copïau o'r ddogfen ymgynghorol hon ar gael ar ddisg. Mae fformatiau eraill ar gael, ar gais, mewn print bras, Braille ac ar dâp sain.

Cysylltwch ag Uned Ymchwil a Deallusrwydd Oftel ar 020 7634 8761 neu drwy e-bost at infocent@oftel.gov.uk am fwy o wybodaeth.